Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Meithrinfa Sant Aubins

**503 Heol Ddwyreiniol Y Bont-faen**

**Canton**

**Caerdydd**

**CF5 1BB**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2011**

**gan**

**Mr Eifion R Morgan**

**ar ran**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Argraffydd y Frenhines a Rheolwr Llyfrfa Ei Mawrhydi 2011: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod hawlfraint y deunydd rhagddywededig a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Mae Meithrinfa St Aubins wedi`i lleoli ar lawr gwaelod dau dŷ deras yng Nghanton. Dyma ardal breswyl sefydlog yng Nghaerdydd gyda rhai adeiladau masnachol ar hyd y briffordd. Meithrinfa gofal dydd ydy`r lleoliad ar gyfer plant o ddwy oed nes iddynt symud i`r cam nesaf yn eu haddysg yn y mis Medi sy`n dilyn eu penblwydd yn bedair oed. Mae`r Feithrinfa ar agor am 50 wythnos o`r flwyddyn o 8 y.b. tan 6 y.p. Ar hyn o bryd mae 40 o blant ar y gofrestr ond nid oes mwy na 25 yn mynychu mewn un sesiwn. Mae cyfanswm o 20 o blant yn cael eu hariannu ac mae`r feithrinfa wedi`i chofrestru i gymryd uchafswm o 27 o blant.

Mae`r ystafelloedd wedi`u haddurno yn ddiweddar ac yn darparu amgylchedd dysgu deniadol i`r plant gan gynnwys mynediad i ardal ddiogel tu allan. Mae gan y feithrinfa ddigon o adnoddau a lleolir ardaloedd penodol ar gyfer gweithgareddau mewn pedair ystafell. Mae`r ardaloedd ar gyfer gwethgareddau wedi`u cynllunio i gwrdd â gofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac mae`r ardal tu allan yn darparu`r plant ag adnoddau ychwanegol a chyfleusterau ar gyfer chwarae a gweithgareddau eraill. Er bod y cyfleusteru storio yn gyfyngedig, mae`r adnoddau o fewn cyrraedd hawdd y plant sy`n nodwedd gadarnhaol gan ei bod yn annog y plant i ddod yn annibynnol.

Ceir mynediad i`r feithrinfa drwy stryd gefn sy`n galluogi`r rhieni a`r gofalwyr i barcio`n ddiogel wrth iddynt ddod â`u plant i`r feithrinfa. Mae`r drws allanol ar glo bob amser ac mae staff y feithrinfa yn cwrdd â`r holl blant yn unigol. Mae`r rhieni/gofalwyr yn dod â`u plant i mewn i`r feithrinfa sy`n eu caniatáu i weld eu plant yn ymgartrefu i`w gweithgareddau.

Mae`r cyntedd fach a`r mynediad gerllaw yn darparu ar gyfer arddangos hysbysebion a gwybodaeth. Mae gan y feithrinfa ddarpariaeth dda o ran cegin ar gyfer paratoi bwyd ( sy`n waharddedig i`r plant). Mae`r toiledau o faint addas a chyfleusterau golchi dwylo yn hygyrch iawn i`r plant. Mae digon o fyrddau a chadeiriau o`r maint priodol.

Mae`r feithrinfa yn medru derbyn plant ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY). Er bod staff yn wyliadwrus wrth arfarnu gallu a chynnydd plant, nid oes unrhyw blentyn ar hyn o bryd sydd wedi nodi ag anghenion o`r math.

Ar hyn o bryd, ychydig iawn  blant sy`n dod o gartrefi lle siaredir Cymraeg yn bennaf, er bod tua hanner o`r plant yn dod o gartrefi lle mae un rhiant yn siarad Cymraeg. Daw rhyw draean o gartrefi lle nad oes yr un rhiant yn siarad Cymraeg. Daw ychydig o blant o gartrefi lle siaredir Sbaeneg, Ffrangeg neu Iseldireg, ond mae pob un o`r plant yn siarad Saesneg.

Daw`r plant sy`n mynychu`r feithrinfa o`r ardal leol ond daw rhai o ymhellach i ffwrdd er mwyn elwa ar addysg drwy gyfrwng yr iaith Gymraeg. Nid yw`r ardal o dan fantais nac anfantais economaidd gymdeithasol ac mae plant o gefndiroedd ethnig gwahanol yn mynychu o bryd i`w gilydd. Sefydlwyd y feithrinfa fel lleoliad cyfrwng Cymraeg ym Medi 2010 mewn ymateb i anghenion rhieni.

Mae`r Cylch wedi cael ei arolygu gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) ym mis Mawrth 2010. Nid oedd unrhyw argymhellion pwysig ac mae`r argymhellion bychain wedi cael sylw. Dyma arolygiad cyntaf y lleoliad gan Estyn.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol y lleoliad** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r lleoliad** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Nodweddion da

- Mae`r holl blant yn dangos cynnydd ac yn cyflawni`n dda ymhob maes dysgu.
- Mae cynnydd a gallu`r plant yn yr iaith Gymraeg yn dda iawn.
- Mae`r holl blant yn mwynhau dysgu ac mae ganddynt agweddau da iawn at ddysgu.
- Mae`r holl blant yn ymddwyn yn gyfrifol ac yn datblygu eu hannibynniaeth yn da iawn.
- Mae`r profiadau dysgu yn cael eu cynllunio`n dda, mae`r holl blant yn cael eu cefnogi`n dda ac yn elwa o gwricwlwm sy`n eang, cytbwys a diddorol.
- Mae`r addysgu yn effeithiol ac yn canolbwyntio`n dda ar ddeilliannau`r Cyfnod Sylfaen.
- Mae`r trefniant "gweithiwr allweddol" yn sicrhau bod tasgau yn canolbwyntio`n dda ar anghenion plant.
- Mae`r oedolion yn fodelau rôl da ac fel siaradwyr rhugl yn yr iaith Gymraeg maent yn cael effaith gadarnhaol ar sut mae`r plant yn dysgu`r iaith.
- Mae`r feithrinfa yn cael ei harwain a`i rheoli`n dda iawn. Mae`r staff yn cyd-weithio`n effeithiol ac mae pob un yn cyfrannu`n sylweddoI i lwyddiant y lleoliad.

### Rhagolygon gwella

- Mae`r arweinyddiaeth wedi darparu cyfeiriad clir i waith y lleoliad.
- Dengys pethau newydd, newidiadau a datblygiadau diweddar fod gan y feithrinfa gofnod da o wella er lles y plant.
- Mae`r arweinyddiaeth yn hunanarfarnol gyda thargedau clir ar gyfer gwella.
- Mae gan yr holl staff agwedd gadarnhaol tuag at newid gan ymwneud yn weithredol â datblygiad a hyfforddiant staff.
- Mae`r arweinyddiaeth a`r staff yn barod i dderbyn mentrau newydd ac mae

ganddynt weithdrefnau mewn lle i gynnwys syniadau newydd i mewn i waith y feithrinfa.

## Argymhellion

Er mwyn gwella, mae angen i’r lleoliad:

1. ymestyn y system sydd wedi`i sefydlu`n dda o asesu a chofnodi er mwyn sicrhau bod plant unigol yn datblygu ar draws pob maes o`r cwricwlwm.

2. parhau i ddatblygu`r ardal tu allan er mwyn ymestyn profiadau`r plant.*

3. lle`n bosibl, datblygu cysylltiadau agosach gyda`r ysgolion cynradd er mwyn gwella trefniadau trosglwyddo`r plant.*

   *Mae`r argymhellion hyn wedi`u cynnwys yng nghynlluniau datblygu`r feithrinfa.

**Beth sy’n digwydd nesaf?**

Bydd y darparwr yn llunio cynllun gweithredu sy`n dangos sut y bydd yn mynd i`r afael â`r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw’r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae`r holl blant yn cyflawni safonau da o gyflawniad ac yn gwneud cynnydd da a weithiau da iawn ymhob maes dysgu.

Mae`r holl blant yn gwneud cynnydd da iawn yn eu datblygiad o`u medrau llythrennedd yn yr iaith Gymraeg. Tra bod rhai plant yn anfodlon i ddefnyddio`r iaith, mae gan bron pob un ddealltwriaeth dda o`r iaith.

Mae gan y plant fedrau gwrando sydd wedi`u datblygu`n dda ac yn mwynhau ac yn awyddus i gyfrannu at storïau a ddarllenir iddynt. Maent yn ateb cwestinyau yn frwdfrydig sy`n dangos yn glir eu dealltwiraeth ddatblygol o`r iaith. Mae`r rhan fwyaf o`r plant yn ymateb yn synhwyrol i drafodaethau grŵp ac yn gwybod y dyddiad, mis a`r flwyddyn. Yn ystod yr arolygiad roedd llawer o blant yn ymwybodol o arwyddocâd y 1af o Fawrth fel Dydd Gŵyl Dewi. Nodwedd nodedig arall o`u gallu cynyddol yw`r ffaith iddynt ymateb yn y Gymraeg gydag ychydig iawn o anogaeth.

Mae llawer o blant yn dewis edrych ar lyfrau yn annibynnol. Maen nhw`n dal llyfrau yn briodol ac yn astudio lluniau a phrint. Maen nhw`n adnabod prif gymeriadau mewn stori.

Mae`r rhan fwyaf o blant yn datblygu eu medrau ysgrifennu a nodwedd nodedig a da o`u hysgrifennu yw eu bod yn deall pwrpas ysgrifennu drwy dasg ymarferol. Mae`r plant wedi ysgrifennu at blant mewn meithrinfa arall, wedi ysgrifennu cyfeiriad ar eu llythyrau a`u postio yn y Swyddfa Bost Leol. Mae hyn yn ffordd dda iddynt weld pwrpas i`w hysgrifen.

Mae ychydig o blant yn dechrau ffurfio llythyrennau`r wyddor yn annibynnol ac mewn ffurf adnabyddus.

Mae`r holl blant yn datblygu eu medrau rhifedd yn dda iawn drwy ddefnydd ymarferol o rif, drwy ddefnyddio geirfa fathemateogl fel "llai na/fwy na" a thrwy ddefnyddio siapiau dau ddimensiwn a thri dimensiwn. Mae`r holl blant yn medru grwpïo gwrthrychau yn ôl lliw neu siâp.

Mae`r holl blant yn cael cyfleoedd rheolaidd i ddefnyddio offer electronig. Maen nhw`n defnyddio camerau digidol ar gyfer cofnodi ac yn defnyddio eu gallu yn eu defnydd o gyfrifiaduron, fel wrth reoli`r cyrchwr gan ddefnyddio`r lygoden gyfrifiadurol.

Mae`r holl blant yn mwynhau cymryd rhan mewn creu cerddoriaeth. Mae ganddynt stôr dda o ganeuon a hwiangerddi Cymreig gan eu canu gyda brwdfrydedd.

Mae`r holl blant yn dangos diddordeb llawn ac yn canolbwyntio ac yn dyfalbarhau am gyfnodau sylweddol o amser. Maent yn medru gwneud penderfyniadau a gweithio`n annibynnol yn dda. Mae`r ystod eang o weithgareddau ar eu cyfer yn datblygu eu medrau creadigol a`u gwybodaeth a`u dealltwriaeth o`r byd o`u cwmpas yn llwyddiannus.

**Lles : Da**

Mae gan y plant ddealltwriaeth briodol yn unol â`u hoedran o sut gallant gadw`n iach. Gwyddant, er enghraifft, pryd mae angen iddynt olchi eu dwylo gan wneud hyn heb fawr o ymyrraeth. Mae gan y rhan fwyaf o`r plant ddealltwriaeth sylfaenol bod deiet iach yn cynnwys ffrwythau a llysiau.

Mae agwedd yr holl blant at eu dysgu yn dda iawn. Maen nhw`n dangos diddordeb yn eu gwaith ac yn y gweithgareddau a chynllunir ar eu cyfer. Mae`r holl blant yn canolbwyntio`n dda am gyfnodau arwyddocaol o amser ac yn medru gwneud penderfyniadau yn annibynnol.

Mae`r holl blant yn uniaethu â`i gilydd ac oedolion ac ymwelwyr yn dda iawn. Maen nhw`n gwrtais ac yn ystyriol ac yn barod i rannu adnoddau.

Mae`r holl blant yn cymryd rhan lawn ym mywyd a gweithgareddau`r feithrinfa, fel wrth iddynt fod yn rhan o gynllunio eu cwricwlwm. Cânt gyfleoedd gwerthfawr iawn i awgrymu eu syniadau eu hun ac mae`r rhain, lle`n bosibl, yn cael eu cynnwys yn nhasgau a gweithgareddau`r plant. Dyma enghraifft dda iawn o sut mae`r plant yn medru gwneud penderfyniadau a chymryd rhan weithredol yn eu dysgu eu hun.

Mae`r cysylltiadau â`r gymuned yn tynnu sylw`r plant at bobl fel diffoddwyr tân, heddlu a deintyddion sy`n edrych ar eu hôl.

Drwyddi draw, mae`r holl blant yn dangos synnwyr o berthyn lle maen nhw`n hapus ac yn derbyn gofal dda sy`n rhydd o unrhyw ffurf o aflonyddwch.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth? | Da |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Gosodir amser i`r holl staff gyfarfod i gynllunio`r cwricwlwm sy`n darparu`r plant â gweithgareddau arloesol a heriol. Cynhwysir y plant hefyd yn y broses gynllunio ac maen nhw`n darparu syniadau o`r hyn y gellir eu cynnwys. Dyma arfer da iawn sy`n sicrhau bod y cwricwlwm yn hyblyg ac yn gysylltiedig â diddordebau`r plant.

Caiff y cwricwlwm ei gynllunio`n dda i ddiwallu athroniaeth cwrciwlwm y Cyfnod Sylfaen ac i gyflawni`r deilliannau a nodir yn nysgu`r plant. Drwyddi draw, mae`r cwricwlwm yn adeiladu ar wybodaeth a phrofiadau blaenorol y plant ac yn cynnwys cyfleoedd da ar gyfer datblygiad medrau ar draws y cwricwlwm.

Caiff cyfleoedd da iawn a gwerthfawr eu cynnwys yng ngwaith dyddiol y feithrinfa i`r plant ddatblygu eu hunan-hyder ac i ddod yn ddysgwyr annibynnol. Er bod gweithgareddau penodol wedi`u cynllunio, mae gan y plant ryddid i ddewis eu tasgau a`u gweithgareddau eu hun.

Drwyddi draw, mae`r holl blant yn parchu ei gilydd, yn ffurfio perthynas dda a`i gilydd ac oedolion ac yn oddefgar o`i gilydd.

Darperir cyfleoedd da a da iawn i`r plant ddatblygu eu medrau sylfaenol o lythrennedd, rhifedd, dealltwriaeth o`r byd, a medrau corfforol a chreadigol. Nodwedd ac agwedd dda iawn o brofiadau dysgu`r plant yw`r ddarpariaeth a wneir i`r plant ddysgu`r iaith Gymraeg. Cymraeg yw iaith naturiol y lleoliad a iaith naturiol y cyfathrebu rhwng oedolion a phlant. Mae`r holl blant, beth bynnag bo`u cefndir, yn dangos eu bod yn mwynhau siarad yr iaith. Mae`r holl blant yn mwynhau edrych ar lyfrau stori yn y Gymraeg a dyddiadur o weithgareddau. Mae gan blant ddigon o gyfleoedd i ddatblygu eu medrau meddwl drwy weithgareddau fel rhai mewn rhifedd.

Rhoddir pwyslais addas ar draddodiadau a dathliadau Cymru fel wrth ddathlu Dydd Gŵyl Dewi yn ystod yr arolygiad. Darperir cyfleoedd da hefyd i`r plant ddysgu gwybodaeth a dealltwriaeth o ddiwylliannau a thraddodiadau eraill, fel drwy astudio`r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd ac arferion eraill fel Diwali. Mae gweithgareddau tebyg yn helpu plant i ddatblygu dealltwriaeth o`r byd ehangach.

Caiff yr holl blant gyfleoedd i hau hadau ac i ofalu am blanhigion ac felly dechrau deall am dyfiant planhigion a chynaladwyedd.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu yn dangos bod gan staff wybodaeth ymarferol dda o ddatblygiad plant a dealltwriaeth glir o ofynion y Cyfnod Sylfaen ar gyfer dysgu plant. Mae gan y staff ddisgwyliadau uchel o`r plant ac mae`r disgwyliadau yma yn cael eu gwireddu yn ymarferol.

Mae rôl weithredol y staff yn y cynllunio o`r cwricwlwm yn sicrhau eu bod yn gwybod eu rolau`n dda a gwneir y defnydd gorau o`u harbenigedd. Mae`r system “gweithiwr allweddol” yn golygu bod gan staff wybodaeth fanwl o nifer fach o blant ac fel canlyniad yn ymwybodol iawn o`u cyflawniadau a`u cynnydd. Golygir hefyd bod tasgau a gweithgareddau yn medru canolbwyntio`n dda ar eu cyfnod arbennig o ddatblygiad ac felly gellir mynd i`r afael ag anghenion y plant abl a dawnus a`r rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol. Dyma arfer da.

Mae cydbwysedd da rhwng gweithgareddau sy`n cael eu dewis gan blant a`u cyfeirio gan oedolion tu fewn ac yn yr awyr agored. Mae`r plant yn cael rhyddid i ddewis rhwng gweithgareddau sy`n cael eu harwain gan oedolion neu weithio`n annibynnol.

Mae`r staff yn fodelau iaith da ac yn defnyddio cwestiynu yn dda i ddatblygu medrau meddwl a chyfathrebu`r plant. Mae`r ymarferwyr yn darparu amgylchedd ysgogol a heriol sy`n sicrhau`n llwyddiannus bod y plant yn cymryd rhan ac yn mwynhau.

Mae`r gweithdrefnau asesu a chofnodi yn cael eu gwneud yn effeithlon. Ceir cofnodion cynhwysfawr o gyflawniadau`r plant sydd ar gael i rieni. Mae`r staff yn adnabod eu plant yn dda ac yn medru cynllunio`r camau nesaf yn eu dysgu. Fodd bynnag, nid oes cofnodion i sicrhau bod pob plentyn unigol wedi ymgymryd ag amcanion dysgu pwysig rhwybryd yn ystod yr wythnos.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae darpariaeth y feithrinfa ar gyfer sicrhau iechyd a lles y plant yn dda.

Mae`r holl blant yn mwynhau eu hamser yn y feithrinfa. Wrth gyrraedd maen nhw`n dangos synnwyr o ddisgwyliad ac yn awyddus i gymryd rhan. Maen nhw`n ymgymryd yn frwdfrydig â`r gweithgareddau a osodir ar eu cyfer.

Mae`r cwricwlwm eang sy`n cynnwys ymweliadau rheolaidd â`r parc lleol ac ymweliadau ymhellach yng Nghaerdydd yn datblygu ac yn ymestyn profiadau`r plant a`u synnwyr o chwilfrydedd. Mae`r gwaith dilynol yn eu dosbarthiadau yn dangos yr ystod eang o brofiadau sy`n codi o`r ymweliadau a synnwyr y plant o ryfeddu. Mae ymweliaadau â`r gymuned ac ymwelwyr i`r feithrinfa yn datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth y plant o`u cymuned.

Mae darpariaeth y feithrinfa ar gyfer sicrhau datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y plant yn dda iawn.

Mae`r plant yn cael profiad o gwricwlwm sydd wedi ei gynllunio`n dda i ymestyn eu synnwyr o chwilfrydedd am y byd maen nhw`n byw ynddo. Mae`r feithrinfa yn uned

drefnus lle mae plant yn parchu ei gilydd ac maen nhw, yn eu tro, yn cael eu gwerthfawrogi gan y staff. Mae gwerthoedd fel gonestrwydd, tegwch, parch a dealltwriaeth o`r hyn sy`n gywir a`r hyn sy`n anghywir yn cael eu meithrin drwy`r weithgareddau dyddiol ac yn cael eu derbyn yn ddiau. Mae`r plant yn gwybod ac yn derbyn y safonau cymdeithasol o gyd-fyw, rhannu a derbyn barn eraill a bod yn aelod o gymdeithas. Mae plant unigol, yn eu tro, yn derbyn cyfrifoldebau penodol sy`n datblygu eu hunan-barch.

Mae datblygiad diwylliannol y plant yn cynnwys arferion a thraddodiadau Cymreig ac yn ymestyn i ddiwylliannau eraill wrth i`r plant ddathlu`r Flwyddyn Newydd Tsieineaidd a Diwali.

Mae staff y feithrinfa yn wyliadwrus wrth nodi plant sydd angen cymorth arbenigol. Yn y gorffennol mae defnydd wedi`i wneud o gymorth ac arweiniad proffesiynol. Mae`r feithrinfa wedi`i defnyddio hefyd gan y Gymdeithas Gymdeithasol i gefnogi plant mewn gofal. Mae gan y feithrinfa bolisïau priodol ar gyfer diogelu plant. Mae`r gweithdrefnau yn dilyn “Gweithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru 2008” ac mae`r staff wedi derbyn hyfforddiant rheolaidd. Ymdrinir yn rheolaidd ag asesiadau risg.

Mae`r feithrinfa yn ddiogel. Mae`r drws ar glo a dim ond aelod o staff sy`n ei agor ac felly nid oes neb yn medru dod i mewn na`r un plentyn yn medru gadael heb gwmni. Mae gofal da yn cael eu cymryd wrth i`r plant gael eu casglu er mwyn sicrhau eu bod o dan ofal eu rhieni neu ofalwr adnabyddus.

Mae adolygiadau rheolaidd o gynnydd plant yn sicrhau bod unrhyw blentyn sy`n cael ei amau o fod angen cymorth ychwanegol yn cael ei nodi a bod cynnydd yn cael ei fonitro`n agos. Arweinydd y feithrinfa yw`r Cydlynydd Anghenion Addysgol Arbennig ac yn gyfarwydd â`r gweithdrefnau angenrheidiol er mwyn cefnogi plentyn tebyg. Defnyddir asiantaethau allanol os oes angen, a darperir cefnogaeth un-yr-un os oes manteision i`r plentyn. Ar hyn o bryd, nid oes gan unrhyw blentyn anghenion dysgu ychwanegol.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae`r feithrinfa, drwy ei gweithgareddau dyddiol a`r agwedd a mabwysiadur gan y staff yn hyrwyddo ethos ragorol. Mae`r staff yn adnabod eu plant yn dda ac mae eu hunigolrwydd yn cael ei adnabod. Mae gan bob plentyn fynediad cyfartal i gwricwlwm o ansawdd uchel sy`n cael ei gyfoethogi gan ymweliadau â`r gymuned ac ymhellach.

Mae`r awyrgylch cartrefol a chyfeillgarwch y staff yn sicrhau bod agwedd oddefgar yn treiddio drwy`r lleoliad. Mae`r feithrinfa yn defnyddio strategaethau ymddygiad cadarnhaol sydd wedi dileu unrhyw ffurf o aflonyddwch neu ymddygiad gormesol. Mae pob plentyn yn mwynhau cyfleoedd cyfartal.

Mae gan staff y feithrinfa gymwysterau a phrofiad da ac yn mwynhau cymhareb blentyn-oedolyn ffafriol. Defnyddir arbenigedd staff yn dda wrth gynllunio ac wrth oruchwylio gweithgareddau. Mae gan y feithrinfa ddigon o adnoddau i ddiwallu gofynion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen ac anghenion y plant. Er bod mannau storio yn

gyfyng, mae`r adnoddau o fewn cyrraedd y plant sy`n hyrwyddo synnwyr y plant o annibyniaeth a chyfrifoldeb.

Defnyddir yr amgylchedd lleol yn dda ac yn rheolaidd sy`n cyfrannu`n dda at ddealltwriaeth y plant o`r byd o`u cwmpas. Mae`r plant yn elwa hefyd o fynediad uniongyrchol i`r ardal awyr agored – ardal sydd ag adnoddau digonol ac sy`n cael ei datblygu.

| | | |
|---|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3:** | **Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae`r staff yn deall eu rolau a`u cyfrifoldebau yn llawn ac yn cyd-weithio`n dda fel tîm gan rannu gwerthoedd, amcanion a nodau. Mae`r arweinydd yn cynnwys yr holl staff yn y cynllunio sy`n sicrhau`r defnydd gorau o`u harbenigedd. Mae`r arweinydd yn cyfrannu`n weithredol drwy roi cyfarwyddiadau clir a synnwyr o bwrpas i waith y feithrinfa. Ceir yma ethos bositif ac ymrwymiad i ddarparu`r profiadau gorau posibl i`r plant.

Mae`r arweinyddiaeth a`r staff yn canolbwyntio`n dda ar anghenion plant ac mae`r feithrinfa yn cyflawni hyn yn ymarferol. Yn ddiweddar, mae`r staff wedi derbyn hyfforddiant perthnasol a phriodol sydd wedi effeithio`n dda ar ansawdd y ddarpariaeth. Ceir cysylltiadau effeithiol gyda rhieni. Mae`r rhieni yn cael eu hysbysu`n dda o gyflawniad a chynnydd eu plant sy`n eu helpu i gefnogi dysgu eu plant.

Mae strwythur rheoli yn bodoli sydd wedi`i sefydlu`n dda gyda diffiniad clir o ddyletswyddau. Mae`r rheolwyr yn rhoi ystyriaeth lawn i ddeddfwriaeth ac arweiniad perthnasol ac yn cwrdd â gofynion cyfreithiol yn llawn.

Mae`r feithrinfa wedi rhoi ystyriaeth dda o flaenoriaethau Cenedlaethol, gan gynnwys gweithredu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Yn ogystal, mae wedi gwneud defnydd da o gyfleoedd i ymweld â meithrinfeydd eraill o fewn yr awdurdod lleol.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae`r lleoliad yn hunanarfarnol ac wedi nodi meysydd i`w gwella yn ddiweddar a`u gweithredu er lles y plant. Mae hyn wedi cynnwys gwneud ychwanegiadau defnyddiol i`r ardal tu allan, fel cysgodfan ar ochr yr adeilad a newidiadau tu fewn sy`n ymestyn profiadau`r plant fel "ystafell yr adeiladwyr" a datblygu annibyniaeth y plant fel y pocedi hunan-gofrestru.

Mae meysydd i`w gwella wedi cael eu nodi a`u blaenoriaethu, gan gynnwys datblygiad pellach o`r ardal awyr agored sy`n canolbwyntio ar wella darpariaeth. Mae

cynlluniau i`r dyfodol yn canolbwyntio hefyd ar ddatblygiad yr iaith Gymraeg, gan gynnwys gweithio gyda rhieni. Mae`r feithrinfa hefyd yn cynllunio ar gyfer gwell gysylltiadau â`r ysgolion cynradd mae`r plant yn symud iddynt.

Mae`r staff wedi gwneud defnydd da hefyd o gyfleoedd hyfforddi ac mae`r profiadau dysgu proffesiynol yn cael effaith dda ar ddysgu a lles y plant. Mae`r staff wedi ymweld ag ysgolion meithrin eraill o fewn yr awdurdod lleol sydd wedi bod yn fuddiol.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae`r rheini, yn yr atebion i`r holiaduron a mewn trafodaethau, yn mynegi eu boddhad llwyr â`r feithrinfa ac yn gwerthfawrogi`n fawr safonau`r gofal ac ansawdd yr addysg sydd ar gael. Maent yn gwerthfawrogi`r polisi drws agored a`r cyfleoedd dyddiol i gwrdd â`r staff.

Erbyn i`r plant adael y feithrinfa, mae`r rhieni yn teimlo eu bod wedi`u paratoi`n dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg. Fodd bynnag, tanddatblygedig yw`r cysylltiadau gyda`r ysgolion cynradd mae`r plant yn symud iddynt.

Mae`r lleoliad yn elwa o`r gefnogaeth a ddarperir gan staff yr awdurdod lleol. Mae`r cyngor a`r awgrymiadau wedi bod yn gymorth i ddatblygu`r feithrinfa ac wedi cyfrannu at y safonau uchel cyfredol o ddarpariaeth.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae`r staff yn cyd-weithio`n effeithiol iawn. Caiff y cynllunio ei wneud ar y cyd ac fel canlyniad gwneir y mwyaf o arbenigedd unigolion.

Mae gan y feithrinfa ddigon o adnoddau ac fe`u defnyddir yn dda i hyrwyddo amcanion cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Hefyd, mae`r adnoddau o fewn cyrraedd y plant sy`n annog annibyniaeth ac yn cael effaith gadarnhaol ar eu dysgu.

Mae`r feithrinfa yn darparu profiadau da iawn yn yr awyr agored drwy ymweliadau rheolaidd (wythnosol gan amlaf) â`r parc, ymweliadau â`r siopau yn yn gymdogaeth gyfagos ac ambell i ymweliad ymhellach i ffwrdd.

Mae`r feithrinfa wedi nodi meysydd i`w gwella gan gynnwys yr adnoddau sydd eu angen.

Drwyddi draw, mae`r lleoliad yn darparu gwerth da am arian.

## Atodiad 1

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

Ymatebion i'r holiadur i rieni

Cafodd dau holiadur eu dychwelyd. Roedd trafodaethau gyda sampl o rieni yn ystod yr arolygiad yn nodi eu cefnogaeth gref o`r lleoliad. Roedd rhieni a gofalwyr yn arbennig o fodlon gyda`r gofal a ddarperir gan y feithrinfa a`r cynnydd mae`r plant yn ei wmeud, yn enwedig eu gallu yn yr iaith Gymraeg.

### Ymateb i drafodaethau gyda phlant

Mae`r holl blant yn hapus yn y lleoliad. Mae eu brwdfrydedd yn amlwg wrth iddynt gyrraedd a chwrdd â`u cyfoedion. Maent yn dangos graddfa uchel o hunan hyder wrth wybod eu bod yn cael eu cefnogi`n dda a bod ganddynt tasgau diddorol a heriol.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Mr Eifion R Morgan | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o'r adroddiad**

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk).